

# Cefnogi dysgwyr sy’n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg

## Dogfen ganllaw ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach

2026

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4

**Prif egwyddorion** 5

**1. Terminoleg a gwybodaeth gefndirol** 5

**2. Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** 6

**3. Sicrhau cynhwysiant i ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg** 7

**4. Cysondeb ar draws Cymru** 8

**5. Partneriaeth** 8

**Dyletswyddau** 10

**Deddf Cydraddoldeb 2010** 10

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** 12

**Y Gymraeg** 12

**Pontio i addysg bellach** 14

**Cefnogi dysgwyr** 17

**Cymorth cyffredinol ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar / gydag amhariad ar y golwg** 17

**Trefniadau mynediad i arholiadau** 20

| | |
|---|---|
| **Cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar** | **21** |
| **Cymorth i ddysgwyr gydag amhariad ar y golwg** | **23** |
| **Dysgu proffesiynol ar gyfer staff** | **25** |
| **Gwybodaeth ac adnoddau pellach** | **27** |
| **Gwefannau ac adnoddau ar gyfer staff coleg** | **27** |
| **Dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr gydag amhariad ar y golwg** | **27** |
| **Dysgwyr sy'n fyddar** | **27** |
| **Dysgwyr gydag amhariad ar y golwg** | **27** |
| **Gwefannau ac adnoddau ar gyfer dysgwyr** | **28** |
| **Dysgwyr sy'n fyddar** | **28** |
| **Dysgwyr gydag amhariad ar y golwg** | **28** |
| **Atodiad A** | **29** |
| **Atodiad B** | **31** |

# Cyflwyniad

Mae ColegauCymru yn nodi, "Rydym yn credu bod gan bob dysgwr hawl i addysg o'r radd flaenaf, a gyflwynir mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi."

Paratowyd y canllaw hwn i helpu gweithwyr Addysg Bellach proffesiynol yng Nghymru i ddysgu am y ffordd orau o gefnogi dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr sydd ag amhariad ar y golwg.

Nod y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth ac arweiniad i'r rhai sy'n gweithio mewn Addysg Bellach i sicrhau bod dysgwyr sy'n fyddar neu ag amhariad ar y golwg yn cael profiad cynhwysol, positif a gwerth chweil o safbwynt academaidd drwy astudio mewn addysg bellach, gan eu caniatáu i gyflawni eu potensial yn llawn.

Mae'r canllawiau'n amlinellu egwyddorion ac argymhellion allweddol ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr sydd ag amhariad ar y golwg, ynghyd ag adrannau'n trafod dyletswyddau, mathau o gefnogaeth, dysgu proffesiynol, a gwybodaeth ac adnoddau pellach.

Mae'r ddogfen ganllaw hon wedi cael ei hysgrifennu a'i dylunio mewn cydweithrediad rhwng ColegauCymru ac Ymchwil Arad yn dilyn ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid gan gynnwys gweithwyr Addysg Bellach proffesiynol, awdurdodau lleol, a chynrychiolwyr o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gyda dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr sydd ag amhariad ar y golwg.

Mae enghreifftiau o bwyntiau i'w hystyried, arfer da a dyfyniadau o'r ymgynghoriadau hyn wedi'u cynnwys drwy gydol y ddogfen.

# Prif egwyddorion

Mae'r adran hon yn darparu **crynodeb o rai o'r prif egwyddorion** y bydd angen i chi eu hystyried wrth lunio eich cefnogaeth ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr sydd ag amhariad ar y golwg.

## 1. Terminoleg a gwybodaeth gefndirol

**Mae terminoleg ac iaith yn bwysig, ac mae pob dysgwr yn unigryw, gyda'i ddewisiadau ei hun.** Efallai y bydd rhai dysgwyr yn dewis defnyddio rhai o'r termau a nodir isod neu beidio, neu efallai y byddant yn defnyddio termau eraill. Yn yr un modd, efallai na fydd rhai dysgwyr yn ystyried bod ganddynt anabledd synhwyraidd, neu byddai'n well ganddynt beidio â chyfeirio atynt eu hunain yn y modd hwn.

Yn hytrach na chymryd y term(au) a'r nodweddion adnabod y mae dysgwyr yn hoffi eu defnyddio yn ganiataol, siaradwch â nhw i drafod eu barn a'u dewisiadau.

**Byddar**: Mae'r term 'byddar' yn cael ei ddefnyddio fel term ymbarél trwy gydol y canllawiau hyn ar gyfer pob math o golli clyw. O fewn cymunedau byddar, mae termau eraill hefyd yn cael eu defnyddio, megis 'amhariad clyw'; 'Byddar' gyda 'B' fawr; neu 'B/byddar' i ddangos defnydd o'r 'B' fawr a'r 'b' fach ar yr un pryd. Mae termau'n aml yn gysylltiedig â chymuned ac ymdeimlad o hunaniaeth, ac mae'n bosibl bod ganddynt ystyr wahanol ar gyfer gwahanol bobl fyddar. Gall person fod yn fyddar o'i enedigaeth neu gall ddigwydd yn ystod plentyndod neu'n hwyrach mewn bywyd. Gall colli clyw fod yn rhywbeth dros dro neu barhaol.

Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw iaith ddewisol llawer o bobl sy'n fyddar yn y DU, ac mae'n cael ei chydnabod yn gyfreithiol fel iaith yn Lloegr, yr Alban a Chymru. I nifer o bobl sy'n fyddar, mae BSL yn rhan bwysig o'u hunaniaeth fyddar ac yn amrywio o le i le, yn debyg i acenion.

Gweler yr adran wybodaeth ac adnoddau pellach am ddolenni a gwefannau defnyddiol a chanllawiau arfer da ar gyfer ymwybyddiaeth o fod yn fyddar.

**Amhariad ar y golwg**: Mae amhariad ar y golwg yn cael ei ddiffinio fel cyfyngiad ar swyddogaethau un neu'r ddwy lygad, neu'r system weledol. Mae'n gallu amrywio o rywfaint o amhariad i ddallineb llwyr. Ni ellir ei gywiro i olwg arferol gyda lensys ar bresgripsiwn.

Gall person gydag amhariad ar y golwg fod â rhywfaint o olwg defnyddiol, y cyfeirir ato fel golwg swyddogaethol neu weddilliol. Fodd bynnag, mae'r amhariad yn ddigon difrifol i effeithio ar allu'r person i gyflawni tasgau addysgol, galwedigaethol, hamdden a/neu gymdeithasol.

Gan ddibynnu ar raddfa'r amhariad ar y golwg, gall unigolion ddefnyddio eu golwg gweddilliol neu ddulliau sain a chyffyrddiad i lywio'r byd o'u cwmpas.

Gall amhariad ar y golwg fod yn rhywbeth sy'n digwydd o enedigaeth, neu gall ddigwydd yn ystod plentyndod neu'n hwyrach mewn bywyd.

Gweler yr adran wybodaeth ac adnoddau pellach am ddolenni i wefannau defnyddiol a chanllawiau arfer da ar gyfer ymwybyddiaeth o amhariad ar y golwg.

## 2. Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

*'Mae ansawdd a lefel y gefnogaeth yn allweddol ac mae'n rhaid iddynt gydweddu ag anghenion a dyheadau'r dysgwr.'* **Cynrychiolydd o'r trydydd sector**.

Mae'n bwysig bod dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr gydag amhariad ar y golwg yn ganolog i waith cynllunio a thrafodaethau ynglŷn â'u cymorth a'u hanghenion. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau bod unigolion yn cael eu trin gyda pharch ac urddas ac mae'n galluogi dull cydweithredol lle mae **gwaith cynllunio a phenderfyniadau'n cael eu gwneud gyda'r unigolyn** (a'u teuluoedd lle bo'n berthnasol), yn hytrach nag ar eu rhan.

Dylid cynnal sgyrsiau gyda dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg **cyn gynted â phosibl.** Gallai hyn fod cyn cyflwyno cais tra bo'r dysgwyr yn dal i fod yn yr ysgol, neu yn ystod proses ymgeisio'r coleg. Dylai trafodaethau barhau trwy gydol amser y dysgwr yn eich coleg, gydag adolygiadau rheolaidd i wirio bod y cymorth a ddarperir yn dal i fod yn addas neu os yw'r anghenion wedi newid.

Dylai trafodaethau gyda dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg flaenoriaethu gonestrwydd, hyblygrwydd a chyfrifoldeb. Trwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, **rydych yn hybu annibyniaeth y dysgwr** ac yn deall ei anghenion a'i ddyheadau.

Er bod angen i chi weithio'n agos gyda dysgwyr unigol ynghylch eu hanghenion, mae rhai meysydd allweddol lle gallwch chi a'ch cydweithwyr **gynllunio cymorth ymlaen llaw** mewn cydweithrediad â darparwyr eraill lle bo'n berthnasol (megis yr awdurdod lleol):

- Lle bo'n bosibl, gall penodi swyddog/cydlynydd cymorth i ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg (os nad oes person o'r fath eisoes ar gael yn eich coleg) sy'n gallu darparu cyngor ac arweiniad a gweithredu mewn rôl eiriolaeth fod o fudd sylweddol i ddysgwyr i gynorthwyo gyda'r ddarpariaeth. Gall yr unigolion hyn arwain sgyrsiau gyda dysgwyr ac aelodau staff cysylltiedig, megis darlithwyr, ynglŷn ag anghenion cymorth, a gweithredu fel cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw bryderon. Os yn briodol, gallant hefyd ddarparu cyngor ac arweiniad a

gweithredu mewn rôl eiriolaeth neu gysylltu gydag asiantaethau allanol, megis arbenigwyr o fewn yr awdurdod lleol.

- Efallai y bydd angen cymhorthion penodol ar ddysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr gydag amhariad ar y golwg i'w cynorthwyo gyda'u dysgu. I ddysgwyr sy'n fyddar, gallai hyn gynnwys offer megis dolenni clyw neu gymhorthion radio, neu gymorth gan staff megis cyfathrebwyr/cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain gyda lefel sgiliau sy'n cyfateb ag anghenion y dysgwr a'r cwrs. I fyfyrwyr gydag amhariad ar y golwg, gallai hyn gynnwys darparu deunyddiau academaidd mewn fformatau eraill, er enghraifft mewn print bras, mewn fformatau electronig i'w defnyddio gyda thechnoleg gynorthwyol gan gynnwys darllenwyr sgrin, a/neu gyda disgrifiad sain. Yn y naill achos, bydd yn ddefnyddiol i gysylltu ymlaen llaw gyda'r timau staff perthnasol o fewn y coleg (darlithwyr, staff TG ac ati) i drafod y trefniadau sydd eisoes ar waith y gellir eu defnyddio neu i nodi bylchau mewn cymorth sydd angen sylw.

- Ochr yn ochr â staff y coleg sy'n gallu helpu gyda chymorth academaidd, gall eich tîm ADY ystyried anghenion cymhwyso, cyfeiriadedd a symudedd dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. Gallai cymorth allanol, megis arweiniad gan yr awdurdod lleol eich cynorthwyo gyda hyn. Mae arwyddion clir, goleuo digonol a gwaredu rhwystrau mewn dosbarthiadau, coridorau, ardaloedd allanol ac ardaloedd cyffredin (megis cyfleusterau toiled a'r ffreutur) yn ystyriaethau pwysig i'w cadw mewn cof.

> *'Wrth drafod yr amgylchedd, mae lefelau cymorth yn wahanol. Mae pethau y gellir eu gwneud er enghraifft ble mae dysgwr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn eistedd, a goleuo, sy'n gallu cael ei deilwra ac mae staff yn gallu eu rheoli. Yr agwedd arall yw technoleg gynorthwyol sydd yno i gefnogi'r dysgwr mewn mannau gydag acwsteg wael. Mae angen sicrhau cysondeb drwyddi draw ac edrych ar bethau ar wahanol lefelau.'* **Cynrychiolydd o sefydliad Addysg Bellach.**

## 3. Sicrhau cynhwysiant i ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg

**Dylai unigolion sy'n fyddar neu sydd ag amhariad ar y golwg deimlo eu bod yn cael eu hintegreiddio i'r un graddau mewn bywyd coleg â dysgwyr eraill.** Mae cynnwys dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg ym mhob agwedd ar fywyd coleg yn bwysig er mwyn creu diwylliant ac amgylchedd cynhwysol a chyfartal. Er enghraifft, os ydych chi'n cynnal archwiliad cynhwysiant ar eich campws i wirio bod

lleoedd yn hygyrch i ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg, dylech gynnwys dysgwyr cyfredol i'ch cynorthwyo gyda'r tasgau hyn.

Yn ogystal, wrth gynhyrchu deunyddiau marchnata neu ddiweddaru gwefannau, ystyriwch sut mae dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn cael eu cynrychioli, a p'un a ydych chi'n dangos amrywiaeth eich carfan o ddysgwyr.

## 4. Cysondeb ar draws Cymru

Er bod y ddogfen ganllaw hon yn annog pob coleg i adeiladu ar eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u partneriaethau i ddarparu cymorth i ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg, **mae ColegauCymru yn anelu at gynnig cyson a chyfartal ar draws Cymru.** Bydd hyn yn gwella'r cyfleoedd a'r profiadau i ddysgwyr, cefnogi arbedion ar raddfa fwy, ac yn annog rhannu arfer da ac arbenigedd, ynghyd â ffurfioli gwasanaethau i sicrhau'r cysondeb hwn. Rydym yn deall na fydd rhai o'r colegau llai mewn sefyllfa i ddarparu cefnogaeth ar yr un lefel â cholegau mwy. Fodd bynnag, trwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill, megis eich awdurdod lleol, mae'n bosibl bod ffyrdd i sicrhau bod modd bodloni gofynion pob dysgwr.

Mewn rhai ardaloedd, bydd darpariaeth colegau wedi'i wasgaru ar draws gwahanol safleoedd campws gyda thimau staff gwahanol, a bydd rhai colegau'n gweithio ochr yn ochr â sawl awdurdod lleol ar yr un pryd. Gall hyn ei gwneud yn anodd sicrhau cysondeb, ond mae rhwydweithiau ar gael y gallwch eu defnyddio i gynorthwyo gyda hyn.

Un o'r prif rwydweithiau ar gyfer cefnogi'r dyhead hwn am gysondeb yw **Penaethiaid Gwasanaethau (Synhwyraidd) o bob awdurdod lleol yng Nghymru,** sy'n gweithio i gefnogi plant a phobl ifanc gydag amhariadau synhwyraidd ledled Cymru. Mae'r rhwydwaith hwn hefyd yn dod â sefydliadau megis RNIB Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar i roi diweddariadau ar waith ymchwil diweddar ac arfer da yng Nghymru ac ar lefel ehangach yn y DU.

Rhwydwaith arall allweddol yw **Cynghrair ADY y trydydd sector, a hwylusir gan 'Plant yng Nghymru'.** Mae'r rhwydwaith hwn yn hybu hawliau plant, yn sicrhau bod llywodraethau lleol a chenedlaethol yn mynd i'r afael â gofynion ADY, ac yn darparu platfform ar gyfer datblygu polisi, yn ogystal â hybu gwaith partneriaeth o fewn y trydydd sector. Ymysg ei sefydliadu partner, mae RNIB Cymru, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a Guide Dogs Cymru.

## 5. Partneriaeth

**Mae partneriaeth yn rhan integredig o gefnogaeth ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg.** Bydd partneriaid allweddol yn cynnwys eich awdurdod

lleol, elusennau cenedlaethol a sefydliadau cynrychioladol eraill sy'n gweithio gyda'r dysgwyr hyn.

Mae gan awdurdodau lleol strwythurau cymorth dysgwyr arbenigol ar waith a gellir ffurfioli'r broses o weithio gyda nhw drwy gytundebau lefel gwasanaeth, neu debyg, i ddarparu lefel gyson o gymorth i ddysgwyr wrth iddynt bontio o'r ysgol i'r coleg, a thrwy gydol eu profiad yn y coleg. Gall hyn ganiatáu ar gyfer dull gweithredu hyblyg a chydlynol gydag ymarferwyr sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir.

> *'Mae gennym ni swyddog sy'n edrych ar addysg yn gyffredinol a bydd y timau ADY yn cynnal dadansoddiad o unrhyw fylchau. Mae ein gwaith rhagfynegi yn seiliedig ar angen, ac mae'n bosibl y byddwn yn gallu cysylltu gydag awdurdodau lleol eraill gan fod gennym ddysgwyr [sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg] sy'n croesi ffiniau sirol, felly byddai modd i ni edrych ar opsiynau i gwmpasu hynny.'* **Cynrychiolydd o'r awdurdod lleol.**

Mae'n bosibl y byddai awdurdodau lleol hefyd yn gallu cynorthwyo gyda benthyg neu brynu offer arbenigol i gefnogi dysgwyr, ac mae rhai'n cynnig hyfforddiant pellach ar gyfer tiwtoriaid i ddefnyddio'r offer hwn.

Dylid nodi mai un o'r heriau allweddol i golegau yw'r ffordd y mae dysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau. Dylid felly datblygu partneriaethau gydag ysgolion i nodi dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg, a datblygu llwybrau'n gynnar i gefnogi unrhyw bontio yn y dyfodol ynghyd ag anghenion dysgu. **Mae cyfathrebu'n gynnar, o Flwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 ymlaen, yn galluogi'r dysgwr a'i rieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus.**

> *'Mae'r egwyddor o gynnal yr un model o gefnogaeth o'r ysgol uwchradd i Sefydliadau Addysg Bellach yn galluogi dysgwyr i brofi cysondeb yn eu cefnogaeth, megis cadw'r un bobl allweddol yn rhan o'r broses.'*
> **Cynrychiolydd o sefydliad trydydd sector.**

Efallai y bydd gan y gwasanaethau cymdeithasol rôl i'w chwarae ar adegau, megis eiriolaeth, drwy gefnogi dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg, ac felly dylid ystyried partneriaethau a fyddai o fudd i'r dysgwr ac o safbwynt dealltwriaeth eich coleg o'u hanghenion.

Bydd partneriaethau mewnol yn y coleg yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi'r dysgwr hefyd. Efallai y bydd angen gweithio gyda chydweithwyr, megis yr adran TG (er enghraifft, i gynorthwyo gydag offer a delio gyda gosodiadau diogelwch TG), staff cymorth arbenigol megis tîm synhwyraidd (os oes tîm o'r fath ar gael yn y coleg), staff cymorth ADY, staff gweinyddol, staff isadrannau a'ch tîm cyfleusterau.

Bydd ystod o wasanaethau cymorth a pholisïau mewnol o fewn y coleg sy'n ceisio sicrhau cydraddoldeb rhwng dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg a

dysgwyr eraill, megis polisïau iechyd a diogelwch. Bydd y meysydd hyn yn cael eu goruchwylio gan wahanol dimau o fewn eich coleg: **gall datblygu partneriaethau mewnol cryf felly ddarparu lefelau cyfannol a chyson o gymorth i fyfyrwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg** a galluogi ystod o unigolion i weithio fel eiriolwyr ar eu rhan.

# Dyletswyddau

Mae'n rhaid i golegau Addysg Bellach gydymffurfio â deddfwriaeth wrth ddarparu cymorth a gwasanaethau ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. Y ddwy brif ddeddfwriaeth berthnasol yw Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (a gyfeirir ati'n aml fel Deddf ALNET).

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ddeddfwriaeth ar gyfer y DU gyfan sy'n *'gwarchod pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac o fewn cymdeithas ehangach'*. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amlinellu naw nodwedd warchodedig:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd neu famolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diogelu pobl sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg rhag cael eu gwahaniaethu o dan nodwedd warchodedig anabledd. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio anabledd fel a ganlyn: *'pan fo gan unigolyn nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar ei allu i wneud gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd'* (Llywodraeth y DU, 2025).[1]

Er bod anabledd yn rhan allweddol o'r ddogfen ganllaw hon, mae'n bwysig cofio bod dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg, fel bob unigolyn arall, yn

---

1 Mae hirdymor yn golygu rhywbeth sy'n para, neu'n debygol o bara, am o leiaf 12 mis neu am weddill oes yr unigolyn, ac mae andwyol yn golygu mwy na rhywbeth mân neu ddibwys, er enghraifft, mae'n cymryd llawer mwy o amser nag arfer i gwblhau tasg ddyddiol.

amrywiol, a bydd ganddynt nifer o nodweddion gwarchodedig sy’n trawstorri ar draws pob un o’r rhain (gelwir hyn yn groestoriadedd).

Mae’r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwarchod unigolion sy’n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg sydd mewn addysg neu hyfforddiant mewn dwy brif ffordd:

1. Mae’n rhoi’r hawl i ddysgwyr gael addasiadau rhesymol.
2. Mae’n golygu bod angen i ddarparwyr addysg gynllunio ymlaen llaw a meddwl sut y gallant waredu unrhyw rwystrau a allai roi dysgwyr anabl dan anfantais, gan gynnwys unigolion sy’n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg.

Mae gwneud addasiadau rhesymol yn golygu bod gan sefydliadau Addysg Bellach ddyletswydd gyfreithiol i geisio gwaredu rhwystrau i ddysgwyr o ganlyniad i anabledd (Scope, 2024). Mae’n rhaid nodi bod gwneud addasiadau rhesymol yn wahanol i ofynion i wneud adeiladau’n hygyrch, megis cael toiledau ar gyfer pobl ag anabledd (Llywodraeth y DU, 2023). Mae enghreifftiau o addasiad rhesymol yn golygu darparu offer neu gymhorthion megis cyfathrebwyr/cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain (Scope, 2024) ac ar gyfer dysgwyr gydag amhariad ar y golwg, sicrhau eu bod yn eistedd mewn man sy’n addas ar gyfer eu cylch gweld (Llywodraeth y DU, 2023).

Nid yw’r Ddeddf Cydraddoldeb yn amlinellu beth sy’n ‘rhesymol’, gan ganiatáu hyblygrwydd gan y bydd amgylchiadau pob unigolyn yn wahanol, a bydd angen addasiadau arnynt na fyddai’n berthnasol i eraill o reidrwydd. Nid oes modd dweud beth sy’n rhesymol ar gyfer pob sefyllfa, fodd bynnag mae rhai ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a yw rhywbeth yn rhesymol ai peidio i sefydliadau Addysg Bellach eu gwneud neu ddarparu, megis:

- Adnoddau’r sefydliad Addysg Bellach, argaeledd cymorth a chostau ariannol gwneud addasiadau
- Ymarferoldeb addasiad penodol
- Pa mor effeithiol fyddai’r addasiad er mwyn ‘goresgyn yr anfantais sylweddol’ i’r dysgwr
- Gofynion iechyd a diogelwch

(Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2019).

*‘Y Ddeddf Gydraddoldeb yw’r ddeddfwriaeth arweiniol. Mae’n glir iawn ynghylch yr hyn sydd angen i sefydliadau Addysg Bellach ei wneud. Mae’r hyn sy’n cael ei ystyried yn anabledd a’r diffiniad ohono’n glir; y rhan arall yw ei effaith ar fywyd pob dydd – mae’n effeithio mewn gwahanol ffyrdd ar wahanol gyfnodau a chyfyngiadau priodol o ran oedran’.* **Cynrychiolydd o’r awdurdod lleol.**

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) yn disodli’r system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Mae’r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cefnogi dysgwyr rhwng 0-25 mlwydd oed. Un o brif egwyddorion ALNET yw cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae’r dysgwr yn ganolog i drafodaethau a chynllunio’n ymwneud â’i anghenion cymorth. O dan Ddeddf ALNET, mae gan sefydliadau Addysg Bellach ddyletswyddau a chyfrifoldebau dros ddysgwyr hyd at 25 mlwydd oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi’u nodi, ac mae’n rhaid i golegau benodi Cydlynydd ADY i reoli gwaith cynllunio ac ymyriadau’n ymwneud ag ADY (Llywodraeth Cymru, 2018a).

Weithiau, bydd gan ddysgwyr gydag ADY Gynllun Datblygu Unigol, sy’n ddogfen gyfreithiol bwysig yn amlinellu ADY y dysgwr ac unrhyw ddarpariaeth addysgol ychwanegol sydd arno ei angen i gael mynediad i addysg. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol wedi disodli datganiadau a chynlluniau dysgu a sgiliau, ac mae’r rhain yn trosglwyddo gyda dysgwyr pan fyddant yn symud o’r ysgol i Addysg Bellach, gyda’r nod o wella trosglwyddiad rhwng lleoliadau i ddysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2018a).

Mae’n bwysig gwybod nad oes gan bob dysgwr sy’n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg Gynllun Datblygu Unigol, ac mae’n rhaid i ddysgwyr dros 16 mlwydd oed roi eu caniatâd i gael un.

Efallai na fydd bob amser yn bosibl i fodloni gofynion dysgwr sy’n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. O dan God/Deddf ADY, gall colegau felly gyfeirio Cynlluniau Dysgu Unigol a dysgwyr i’r awdurdod lleol os credir ei fod yn ‘afresymol’ iddynt ddarparu unrhyw Ddarpariaeth Addysg Ychwanegol arbenigol.

## Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn 2024, cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) gyda’r nod o sicrhau bod dysgwyr yn cyrraedd diwedd eu cyfnod mewn addysg orfodol yn ddefnyddwyr annibynnol o’r Gymraeg (Senedd Cymru, 2025). Gallai hyn effeithio ar nifer y defnyddwyr iaith Gymraeg sy’n mynychu Addysg Bellach ac mae’n debygol o olygu y bydd angen i golegau ystyried defnydd o’r iaith Gymraeg a darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y Gymraeg i ddysgwyr sy’n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn y dyfodol.

O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae mwy o ddyletswydd ar sefydliadau Addysg Bellach o safbwynt y Gymraeg.

Cafodd Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 ei diwygio i sicrhau bod addysg ar hyfforddiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn ystyried yr hyn sy’n ofynnol er mwyn cyflawni darpariaeth dysgu ychwanegol yn y Gymraeg, gan gynnwys asesiad o ADY (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).

# Pontio i addysg bellach

Gwelwyd fod cynllunio ymlaen llaw yn helpu i sicrhau bod pontio i'r coleg yn digwydd mor llyfn â phosibl i ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg, eu rhieni/gofalwyr a'ch staff cymorth. Gall cefnogi dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg ar eu taith addysgol gynnwys gweithio gyda nhw cyn iddynt gofrestru ar hyd pwyntiau pontio y tu hwnt i Addysg Bellach a hyd at gyflogaeth neu hyfforddiant pellach neu addysg uwch.

> *'Pan fydd dysgwr yn cyrraedd ar y diwrnod cyntaf, mae'n rhaid iddo gael ei gefnogi yn y ffordd gywir. Mae'r cyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol a'r sefydliad Addysg Bellach yn bwysig iawn, ynghyd â chamau gweithredu penodol megis sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fynd o amgylch y coleg gydag arbenigwr a deall yr ystafelloedd a sut mae ardaloedd yn gweithio. Yna, gall y ddysgwyr deimlo'n hyderus pan fydd yn dechrau.'* **Cynrychiolydd o Sefydliad Addysg Bellach.**

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn pontio i'r coleg o ysgolion lleol. **Yn aml, bydd gan y dysgwyr hyn gymorth wedi'i rhoi ar waith ers eu cyfnod yn yr ysgol** trwy'r awdurdod lleol, a gellir defnyddio hwn i gynorthwyo gyda'r cyfnod pontio, ochr yn ochr â'r timau cymorth arbenigol o fewn eich sefydliad.

> *'Mae rhieni'n awyddus i gefnogaeth yr awdurdod lleol barhau ar ôl pontio, yn enwedig ar gyfer y rhai gyda mwy o anghenion cymorth. Ar gyfer dysgwyr gydag anghenion cymorth is, gallant fod yn ddigon hapus nad yw'r awdurdod lleol yn ymwneud cymaint â nhw: maen nhw'n gwybod bod y coleg yn gallu cysylltu â'r awdurdod lleol os oes problem, maen nhw'n gwybod beth yw'r angen a'i fod wedi'i sefydlu, ond gyda'r dysgwyr gydag anghenion uwch, mae mwy o bryder ynghylch y cyfnod ar ôl pontio.'* **Cynrychiolydd o'r awdurdod lleol.**

**Arfer da - Cydweithio**

Mae cydweithio'n hanfodol er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus o'r ysgol uwchradd i golegau ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. Amlygodd cynrychiolydd o'r awdurdod lleol bod awdurdodau lleol a cholegau weithiau'n cadw *'gwybodaeth a dealltwriaeth wahanol'* felly mae rhannu'r rhain yn gynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Roedd y cynrychiolydd hwn yn ystyried bod cynllun trosglwyddo a ddatblygwyd gyda

dysgwyr, a'u teuluoedd ar adegau, sy'n cynnwys yr addasiadau angenrheidiol a'r hyn y mae dysgwyr eisiau i'w tiwtoriaid wybod amdanynt yn adnodd defnyddiol.

**Mae pontio o'r ysgol i Addysg Bellach yn gallu gweithio orau os bydd anghenion dysgu'r dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn cael eu deall ymlaen llaw.** Mae'r gwaith paratoi'n aml yn digwydd pan fo'r dysgwyr yn yr ysgol, ac yn gallu cynnwys meysydd megis cynnydd a dyheadau'r dysgwr, ac anghenion cymorth megis staff arbenigol i gynorthwyo gydag offer dysgu. Mae ffurfioli ymweliadau cyn ymsefydlu er mwyn deall yr anghenion a'r dyheadau hyn a pharatoi'r dysgwyr a'r staff ar gyfer dechrau'r cyfnod astudio'n gallu bod yn ffordd effeithiol o ddarparu cyngor a chymorth, ac mae'n gallu helpu gyda darparu offer.

**Arfer da - Pontio'n gynnar**

Amlygwyd pwysigrwydd cyfnod pontio cynnar gan gynrychiolwyr o'r trydydd sector. Lle bo'n bosib, dylai gwaith a gweithgareddau ar gyfer pontio dysgwyr ddechrau'n gynnar i nodi ffactorau megis newid i dechnoleg, er enghraifft, coleg yn defnyddio Microsoft yn hytrach nag Apple fel yr oedd dysgwr yn ei ddefnyddio yn yr ysgol uwchradd.

Mae dogfennau canllaw arfer da ar gael i'ch cynorthwyo i gefnogi cynnydd a dyheadau dysgwyr a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg. Un enghraifft yw'r ddogfen ganllaw Fframwaith y Cwricwlwm ar gyfer amhariad ar y golwg.

Elfennau pwysig eraill o gynllunio ar gyfer pontio yw **Cynlluniau Gweithredu Blynyddol Disgyblion a Chynlluniau Datblygu Unigol.** Mae'r dogfennau hyn yn gweithredu fel canllaw i ysgolion/sefydliadau Addysg Bellach i gefnogi dysgwyr gydag ymsefydlu, bywyd coleg, mynediad i arholiadau, addasiadau i'r cwrs, gofynion synhwyraidd neu symudedd, ynghyd â Sgiliau Byw'n Annibynnol.

Dylai'r ddogfen gwmpasu mynediad i'r cwrs ac i ddeunyddiau ac offer y cwrs - h.y. yr hyn sydd ei angen a sut y bydd yn cael ei ddarparu; pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am hyn (er enghraifft, dysgwr, tiwtor, gweithwyr cymorth ac ati); ac erbyn pryd y bydd hyn yn ei le.

Mae darparu offer addas yn gallu bod yn heriol ar adegau gan fod yr hyn y mae ysgolion a cholegau'n ei ddefnyddio'n gallu bod yn wahanol iawn. Fodd bynnag, ceir **enghreifftiau yng Nghymru o dimau'r awdurdod lleol yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio offer o'r ysgol am gyfnod i hwyluso'r cyfnod pontio** a chaniatáu amser

i'r coleg gael gafael ar ei offer ei hun. Unwaith eto, gellir cynllunio hyn ymlaen llaw trwy gydweithrediad rhwng eich coleg, yr awdurdod lleol, yr ysgol a'r dysgwr.

> *'Mae llais y dysgwr yn bwysig iawn. Nid yw llawer o ddysgwyr yn dymuno cael cymorth mor amlwg wrth iddynt fynd yn hŷn, efallai y byddant yn dal i dderbyn cymorth, ond maent yn dewis rhywbeth llai amlwg'* **Cynrychiolydd o'r awdurdod lleol.**

Mae'n bwysig nodi bod heriau'n codi wrth ddarparu'r math hwn o gymorth ar lefel uwch. Er y dylai pob coleg allu darparu offer, mae cymorth ychwanegol megis therapi neu Athro Cymwys ar gyfer pobl gydag amhariad ar y golwg (QTVI)[2] neu Athro Cymwys ar gyfer pobl sy'n fyddar (QToD)[3] yn gallu bod yn ddrud. Mae prinder cyllid a staff arbenigol ar hyn o bryd ar lefel awdurdod lleol, a gall fod angen partneriaethau ehangach ar draws colegau/awdurdodau lleol i fynd i'r afael â hyn.

**Ni fydd gan bob dysgwyr drefniadau pontio o'r ysgol** fodd bynnag gan y bydd rhai wedi penderfynu mynychu'r coleg ychydig cyn dechrau tymor newydd, efallai bydd rhai'n newydd i'r ardal, neu'n fyfyriwr hŷn. Bydd angen ystyried trefniadau eraill yn yr achosion hyn a bydd angen cynnal sgwrs rhwng eich sefydliad a'r staff cymorth ac academaidd perthnasol, a'r dysgwr unigol a'i rieni/gofalwyr (os yn berthnasol).

[2] Athro Cymwys ar gyfer pobl gydag amhariad ar y golwg
[3] Athro Cymwys ar gyfer pobl sy'n fyddar

# Cefnogi dysgwyr

**Mae'r cyfle i ddysgwyr ddod yn fwy annibynnol wrth wraidd addysg bellach, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg i gyflawni hyn.** Nid yw darparu cymorth i ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg i'w galluogi i oresgyn rhwystrau i gael mynediad i addysg yn cael gwared ar yr annibyniaeth hon, ond yn hytrach, yn ei hwyluso.

Mae rhestrau gwirio cymorth i ddysgwyr yn adnoddau defnyddiol sy'n gallu eich cynorthwyo i bennu'r mathau o gymorth sy'n angenrheidiol ar gyfer pob dysgwr, a'r adnoddau sydd angen eu dyrannu er mwyn darparu hyn. Er enghraifft, mae NatSIP wedi creu Fframweithiau ar gyfer y DU gyfan ar gyfer sgorio lefelau cymorth i'w defnyddio gan wasanaethau cymorth synhwyraidd yr awdurdod lleol, gyda fframweithiau ar wahân ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr gydag amhariad ar y golwg. Mae'r fframwaith yn edrych ar raddfeydd byddardod a golwg pell ac agos yn ogystal â ffactorau eraill a fyddai'n effeithio ar anghenion cymorth dysgwr, megis yr amgylchedd dysgu ffisegol a'r cymorth pontio sy'n angenrheidiol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y Fframwaith Cwricwlwm Byddar Arbenigol a gynhyrchwyd gan Sefydliad Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar Prydain (BATOD) a'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gydag amhariad ar y golwg (CFVI) a gynhyrchwyd gan RNIB.

Gweler yr adran gwybodaeth ac adnoddau yn y canllawiau hyn ar gyfer dolenni i'r dogfennau uchod.

## Cymorth cyffredinol ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar / gydag amhariad ar y golwg

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, bydd angen i sefydliadau Addysg Bellach ddarparu addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er y bydd gan ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg anghenion penodol, mae nifer o feysydd cymorth cyffredinol y dylai fod ar gael o fewn sefydliadau Addysg Bellach i gefnogi'r dysgwyr hyn. Os bydd dysgwr yn dod o dan y Ddeddf ADY a'i fod angen cymorth parhaus gan arbenigwr, mae'n bosibl y bydd ganddo Gynllun Datblygu Unigol sy'n cael ei reoli gan yr awdurdod lleol ac sy'n ariannu agweddau arbenigol y ddarpariaeth addysg ychwanegol.

**Mae nodi anghenion dysgwyr yn gynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cymorth a darpariaeth briodol ar gael.** Dylai sefydliadau Addysg Bellach weithio ar y cyd

gyda'r dysgwr, ei deulu a'r ysgol yn ogystal â staff iechyd ac addysg (megis Cydlynwyr ADY), staff cymorth o fewn eu sefydliad Addysg Bellach a'r awdurdod lleol, gan gynnwys arbenigwyr a'r gwasanaethau cymdeithasol (os yn berthnasol).

> *'Mae'n golygu sicrhau bod y bobl iawn yn yr ystafell gyda'i gilydd i ddechrau'r sgyrsiau am sut olwg fydd ar y gefnogaeth ar gyfer yr unigolyn penodol hwnnw, ac mae'n broses hir. Mae'r unigolyn bob amser yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'n bwysig iawn i ni fod yn rhan o'r cyfnod pontio, i fagu perthynas gyda'r person ifanc, gan ein bod ni weithiau'n gallu cyfryngu rhwng yr ysgol a'r coleg, y tîm amhariad ar y golwg a'r rhieni.'* **Cynrychiolydd o Sefydliad Addysg Bellach.**

Wrth gwrs, bydd dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn cael mynediad i'r holl wasanaethau cymorth a gynigir gan y coleg, megis gwasanaethau

**Arfer da - Clybiau wythnosol ar gyfer myfyrwyr sy'n fyddar**

Mewn un coleg, cynhelir clwb wythnosol i fyfyrwyr sy'n fyddar sy'n eu galluogi i gwrdd ag eraill a mynychu sesiynau defnyddiol, megis sesiynau'n trafod llesiant a diogelwch ar-lein. Gall myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 mewn ysgolion uwchradd a fydd yn pontio i'r coleg hefyd fynychu'r clwb wythnosol fel eu bod yn gallu cwrdd â myfyrwyr eraill a dysgu mwy am y coleg. Gwelwyd fod mynychu'r clwb yn ddefnyddiol o ran magu hyder, ac yn darparu sicrwydd i'r dysgwyr y byddant yn gallu cyfathrebu gyda'u cymheiriaid pan fyddant yn ymuno â'r coleg.

llesiant canolog. Yn ogystal â sicrhau bod cymorth academaidd a bugeiliol digonol ar gael, dylai sefydliadau Addysg Bellach hefyd geisio annog a hwyluso cymorth gan gymheiriaid/cymorth wedi'i arwain gan ddysgwyr: mae mynychu sefydliad Addysg Bellach yn fwy nag ennill cymwysterau academaidd a phrofiad, mae hefyd yn ymwneud â gwneud cysylltiadau newydd a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg i deimlo'n rhan o agweddau ehangach bywyd coleg.

Yn ehangach, dylai sefydliadau Addysg Bellach gymryd camau i adolygu effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. Mae monitro cyfraddau presenoldeb, cwblhau a chyflawni ar gyfer y dysgwyr hyn fel rhan o waith casglu data parhaus ynghyd ag ymgynghori gyda dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn gallu bod yn ffyrdd o asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Gellir ymgynghori gyda dysgwyr mewn sawl ffordd, megis holiaduron a digwyddiadau ymgysylltu yn ogystal â grwpiau llais y dysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr.

Mae amrywiaeth o enghreifftiau o ffyrdd y gellir cefnogi dysgwyr i'w gweld isod.

- Ymgysylltu gyda thimau cynhwysiant/synhwyraidd yr awdurdod lleol i sicrhau bod parhad o ran cymorth cyn y cyfnod pontio, gyda mynediad at unrhyw offer angenrheidiol a/neu staff arbenigol.
- Sicrhau bod yr offer angenrheidiol ar gael cyn i'r dysgwr ddechrau ar ei gwrs - mae'n bosibl y bydd angen cynnal sgyrsiau gyda'r awdurdod lleol/yr ysgol i drefnu hyn.
- Cwblhau ymarfer ymgyfarwyddo ar y campws cyn i'r dysgwyr ddechrau ar eu cwrs fel bod modd gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.
- Hwyluso arbenigwyr cymhwysedd i gynnal archwiliadau amgylcheddol o safleoedd ar y campws.
- Sicrhau bod staff allweddol (er enghraifft tiwtoriaid pwnc, staff arbenigol, arbenigwyr cymhwyso) yn cwrdd â dysgwyr cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs, fel eu bod yn ymwybodol o agweddau ymarferol y cwrs yn ogystal â gofod ffisegol y campws.
- Adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol dysgwyr a rhannu'r rhain gyda staff perthnasol yn y coleg.
- Sicrhau bod person cyswllt penodedig i gysylltu rhwng y sefydliad Addysg Bellach, yr awdurdod lleol, yr ysgol, a theulu'r dysgwr unigol (os yn berthnasol).
- Cynhyrchu deunyddiau dysgu mewn fformat hygyrch sydd ar gael i ddysgwyr ymlaen llaw er mwyn galluogi cyfranogiad llawn yn y dosbarth.
- Addasu adnoddau/deunyddiau gyda chymorth staff arbenigol i sicrhau eu bod yn briodol ac yn hygyrch.
- Darparu adnoddau/deunyddiau amrywiol megis fideos a disgrifiad sain o sleidiau/fideos i gynorthwyo gyda hygyrchedd ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg.
- Recordio dosbarthiadau gan ddefnyddio meddalwedd benodol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl fel bod dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn gallu cyfeirio'n ôl at ddarlithoedd rhag iddynt fethu unrhyw gynnwys.
- Darparu rhywun i gymryd nodiadau os oes angen.
- Bod yn hyblyg gydag amserlenni lle bo'n bosibl.
- Darparu cyfleoedd dysgu i staff i gefnodi eu datblygiad proffesiynol, eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg.

## Trefniadau mynediad i arholiadau

Gan ei bod hi'n ofynnol i ddysgwyr sefyll arholiadau mewn rhai cyrsiau, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i anghenion dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg.

Bydd prosesau asesu'n amrywio gan ddibynnu ar y cwrs, felly mae'n bwysig ystyried a thrafod anghenion y dysgwr a gofynion y sefydliad dyfarnu cyn gynted â phosibl. Pan fo dysgwr yn cofrestru, dylai'r sefydliad Addysg Bellach fod yn ymwybodol o'i anghenion yn y rhan fwyaf o achosion, a'i Gynllun Datblygu Unigol (os yn berthnasol). Mae proffiliau un tudalen yn ddefnyddiol er mwyn i staff fod yn ymwybodol o anghenion dysgwyr a dylai'r tiwtoriaid/darlithwyr, Cydlynydd ADY a'r swyddog arholiadau weithio ar y cyd i sicrhau bod mynediad i arholiadau a threfniadau addasiadau rhesymol yn eu lle. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal trafodaethau gyda byrddau arholi i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ac i wirio dyddiadau cau ar gyfer papurau wedi'u haddasu. Mae'n bwysig trafod trefniadau arholiadau gyda dysgwyr cyn gynted â phosibl fel rhan o'r broses hon.

**Arfer da - Cefnogi myfyrwyr sy'n fyddar i sefyll arholiadau**

Rhannwyd enghraifft o un coleg lle'r oedd myfyriwr sy'n fyddar yn astudio cwrs ffotograffiaeth lefel gradd. Bu swyddog arholiadau'r coleg yn gweithio gyda'r bwrdd arholi a chytunwyd y byddai gwaith cwrs y myfyriwr yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain.

Bydd gan ddysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg wahanol ofynion ar gyfer arholiadau, ac mae ambell i enghraifft o drefniadau i'w gweld isod.

**Enghreifftiau o drefniadau mynediad ar gyfer arholiadau**

- Ystafell ar wahân gyda goruchwyliwr a chyfathrebwr os oes angen
- Papurau wedi'u haddasu
- Amser ychwanegol
- Technoleg addasol megis meddalwedd chwyddo neu ddarllenydd sgrin
- Darllenydd
- Ysgrifennydd
- Cynorthwyydd ymarferol i gefnogi myfyrwyr i ymdrin â phapurau arholiad cymhleth
- Asesiad arall sy'n bodloni'r un amcanion asesu
- Mwy nag un copi o'r papur arholiad os oes angen cyfathrebwr

## Cymorth ar gyfer dysgwyr sy’n fyddar

Dylai staff fod yn ymwybodol o wahaniaethau rhanbarthol gydag Iaith Arwyddion Prydain a sut y gall arwyddion amrywio rhwng gwahanol ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain. Er y byddai llawer o ddysgwyr sy’n fyddar yn croesawu staff y coleg yn cyfathrebu â nhw gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain sylfaenol, cofiwch na fydd lefelau isaf Iaith Arwyddion Prydain yn ddigon ar gyfer lefel yr astudiaethau gofynnol mewn Addysg Bellach a dylid darparu cefnogaeth briodol gyda chyfathrebwyr/cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain cymwys neu Athro Cymwys ar gyfer pobl sy’n Fyddar (QToD) lle credir bod angen hynny er mwyn cefnogi anghenion dysgwyr.

Yn ogystal, mae’n bosibl y gallai dysgwyr sy’n fyddar nodio’n pen gyda staff y coleg,

> **Arfer da - Egwyddorion cyfathrebu**
>
> Mae egwyddorion cyfathrebu ar gyfer myfyrwyr sy’n fyddar yn cynnwys sicrhau nad oes unrhyw beth i dynnu eu sylw, sicrhau goleuo digonol ac mae bod yn ymwybodol o ystumiau’r wyneb yn bwysig. Mae defnyddio iaith glir ac osgoi idiomau ac ymadroddion llafar hefyd yn bwysig. Enghraifft o hyn yw peidio â defnyddio idiomau megis ‘bwrw hen wragedd a ffyn’ gan nad yw’n cyfieithu’n dda wrth ddefnyddio Iaith Arwyddion. Eglurodd un cynrychiolydd o goleg *‘Rydym ni’n mynd yn ôl i agweddau cyfathrebu megis gwneud yn siŵr nad oes unrhyw beth yn tynnu sylw dysgwyr, gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau cyswllt llygad, ein bod o dan olau da ac yn defnyddio ystumiau wyneb priodol.’*

gan ymddangos eu bod yn deall gan nad ydynt eisiau amlygu eu hunain hyd yn oed os nad ydynt wedi deall yr hyn sy’n cael ei ddweud. Dylech chi a’ch cydweithwyr felly fod yn ymwybodol o hyn a gwirio gyda dysgwyr eu bod wedi deall unrhyw wybodaeth neu gyfarwyddiadau a bod yn barod i egluro os oes angen. Mae’r term cymhorthion ategol yn cwmpasu cymhorthion a gwasanaethau a gallant gynnwys:

- Cymhorthion radio
- Systemau ‘Soundfield’
- Cymorth i sicrhau bod eu cymhorthion clyw yn gweithio’n iawn
- Ysgrifennydd nodiadau i ddarparu nodiadau ysgrifenedig
- Gweithiwr cymorth cyfathrebu, cyfieithydd iaith arwyddion neu siaradwr gwefusau

**Prif ystyriaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n fyddar yn yr ystafell ddosbarth**

- Sefwch ym mlaen y dosbarthiadau fel bod dysgwyr sy'n darllen gwefusau'n gallu gweld tiwtoriaid yn glir.
- Osgowch sefyll o flaen ffenestri wrth siarad.
- Sicrhewch fod dysgwyr yn eistedd mewn man lle gallant weld y tiwtor yn glir.
- Darparwch gyfathrebwr/cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain i rieni/gofalwyr sy'n fyddar er mwyn iddynt allu mynychu nosweithiau rhieni.
- Sicrhewch fod staff yn ymwybodol o gymhorthion ategol y gallai dysgwyr fod yn eu defnyddio a sut y byddant yn cael eu defnyddio fel rhan o ddosbarthiadau.

## Cymorth i ddysgwyr gydag amhariad ar y golwg

Hyd yn oed ar ôl darparu nodiadau hygyrch cyn gwersi, gall sesiynau addysgu gyflwyno rhwystrau i ddysgwyr gydag amhariad ar y golwg. Gall staff gyda phrofiad digonol fod yn anodd eu canfod, er enghraifft, arbenigwyr braille. Yn aml, gall Athrawon Cymwys ar gyfer pobl gydag amhariad ar y golwg rannu 'Proffil Golwg' ar gyfer dysgwyr unigol gydag amhariad ar y golwg, a gellir defnyddio'r rhain ochr yn ochr â'r prif ystyriaethau a amlinellir isod.

**Prif ystyriaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr gydag amhariad ar y golwg yn y dosbarth**

- Defnyddio 'penawdau' o fewn strwythur dogfennau gyda rhestrau wedi'u rhifo neu bwyntiau bwled, er enghraifft o'r ddewislen 'Styles' yn Microsoft Word.
- Defnyddiwch frawddegau byr a syml gydag iaith glir ac osgowch jargon/talfyriadau mewn deunyddiau.
- Dylai adnoddau fodloni gofynion y dysgwr o ran maint ffont, math o ffont a lliw'r testun a'r cefndir. Rhowch ddisgrifiad ystyrlon o ddelweddau pwysig sydd wedi'u cynnwys yn y deunyddiau dysgu.
- Defnyddiwch enw'r dysgwr ar ddechrau'r frawddeg wrth gyfeirio ato.
- Gwiriwch hygyrchedd trwy ddefnyddio'r adnodd gwirio hygyrchedd mewn meddalwedd megis Microsoft Word neu Microsoft PowerPoint.
- Dylid creu dogfennau PDF o ddogfen wreiddiol sy'n cynnwys testun y gellir ei addasu yn hytrach na llun; bydd hyn yn sicrhau cyfatebiaeth gyda meddalwedd testun i lais.
- Nodwch ar lafar eich bod yn symud o un sleid i'r llall.
- Osgowch bwyntio at wybodaeth benodol, yn hytrach, rhowch gyfarwyddiadau/esboniadau ar lafar.
- Disgrifiwch unrhyw wybodaeth ysgrifenedig nad yw'n ymddangos yn nodiadau'r myfyriwr, megis diagramau neu gyfrifiadau mathemategol sydd wedi'u hysgrifennu ar fwrdd gwyn.

**Enghraifft o arfer da: Hygyrchedd y safle**

Fe wnaeth myfyriwr gydag amhariad ar ei olwg a oedd yn pontio o'r ysgol uwchradd i'r coleg dynnu sylw yn ystod ymweliad â'r coleg fod postyn yn yr adeilad yr un lliw â'r wal, gan ei gwneud hi'n anodd iddo wahaniaethu rhwng y ddau. Aeth y coleg ati i beintio'r postyn mewn lliw gwahanol i'r wal gan ei wneud yn fwy gweledol i fyfyrwyr gydag amhariad ar y golwg. Eglurodd cynrychiolydd o'r coleg bod y newid amgylcheddol syml hwn wedi gwneud y campws yn fwy cynhwysol a diogel i'r myfyrwyr gydag amhariad ar y golwg: '*…gan nad oes gen i brofiad byw o hyn, mae gennym ni bostion sydd yr un lliw â'r wal. Felly, rydym ni wedi newid pethau trwy roi cefndir mwy llachar neu liwio'r postyn mewn lliw mwy llachar, ac mae'n syml iawn.*' **Cynrychiolydd o Sefydliad Addysg Bellach.**

## Dysgu proffesiynol ar gyfer staff

Gall dysgu proffesiynol ar gyfer staff y coleg gyfrannu at fynd i'r afael â phob agwedd ar gefnogi dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. **Mae'n gallu helpu staff y coleg i ddeall a phennu perthnasedd a hygyrchedd cymorth ar gyfer y dysgwyr hyn i sicrhau eu cynnydd academaidd a phersonol.** Gall dysgu proffesiynol hefyd ddarparu cymwysterau ar gyfer staff i gydnabod eu harbenigedd a chefnogi rhaeadru gwybodaeth a sgiliau ar draws timau'r coleg trwy fentora a chyfnewid gwybodaeth.

Gellir hefyd darparu dysgu proffesiynol er mwyn:

- Codi ymwybyddiaeth o anghenion dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg
- Sefydlu codau ymarfer
- Datblygu amgylchedd dysgu ac arferion addysgu cynhwysol
- Datblygu strwythurau ar gyfer diogelu a gofal bugeiliol i ddysgwyr
- Helpu staff i reoli llwyth gwaith

Gall dysgu proffesiynol amrywio o ymwybyddiaeth gyffredinol sylfaenol i oresgyn stereoteipiau, strategaethau dysgu, a gwybodaeth gychwynnol am iaith arwyddion i hyfforddiant a chymwysterau ar lefel uwch.

> *'Rydym wedi dilyn dull o ddarparu hyfforddiant ar gyfer adrannau neu ddarlithwyr unigol, ac mae hynny'n fan cychwyn da ar gyfer datblygu dealltwriaeth sylfaenol a lefelau hyder.'* **Cynrychiolydd o awdurdod lleol.**

Mae dysgu proffesiynol yn gallu deillio o amrywiaeth o sefydliadau a rhwydweithiau, er enghraifft sefydliadau Addysg bellach eraill, darparwyr dysgu proffesiynol, Addysg Uwch a chyflogwyr (gyda ffocws penodol ar gynnydd pellach i ddysgwyr).

**Yn aml, mae gan golegau staff arbenigol o fewn timau ehangach.** Mae'n werth gwneud staff eraill yn ymwybodol o arbenigeddau Athrawon Cymwys ar gyfer pobl sy'n fyddar, Athrawon Cymwys ar gyfer pobl sydd ag amhariad golwg ac arbenigeddau eraill (os oes rhai ar gael) o fewn tîm y coleg/yr awdurdod lleol a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi dysgwyr yn eu pynciau.

> *'Gallai fod yn fwy cost effeithiol i ddefnyddio arbenigedd a dyheadau staff presennol lle bo'n bosib. Mae'n debygol y bydd arbenigwyr o'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg o'r blaen ac felly'n deall eu hanghenion. Bydd eu presenoldeb hefyd yn tawelu meddwl dysgwyr.'* **Cynrychiolydd o awdurdod lleol.**

Mae'n werth nodi y bydd dysgwyr sy'n mynd i'r coleg yn cwblhau cyrsiau gyda therminoleg unigryw, felly mae'n bosibl y bydd angen staff gyda hyfforddiant penodol

megis cyfathrebwr/cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain i gefnogi dealltwriaeth a chynnydd y dysgwr.

> *'Talodd y coleg am hyfforddiant iaith a lleferydd i staff a bu'n gweithio'n agos gydag asiantaeth arbenigol i gefnogi dysgwr gydag amhariad ar y golwg a oedd yn defnyddio braille. Mae'r dull gweithredu hwn wedi galluogi'r person ifanc i gwblhau ei gwrs ac wedi rhoi'r hyder a'r arbenigedd i'r coleg.'*
> **Cynrychiolydd o awdurdod lleol.**

Gallai cael aelod penodedig o staff yn y coleg sydd â'r rôl o ddatblygu a deall anghenion dysgwyr a chydlynu gwaith gyda gwasanaethau megis SENCOM[4] neu bartneriaethau rhanbarthol eraill helpu staff y coleg yn ehangach i gael mynediad at gymorth, cyngor a dysgu. Mae hon yn elfen y gallai colegau ei hystyried trwy ffurfioli rolau a chyfrifoldebau yn y maes hwn.

[4] Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu yn Ne-ddwyrain Cymru.

# Gwybodaeth ac adnoddau pellach

Yn ogystal â'r ddogfen ganllaw hon, mae llawer o adnoddau a gwefannau defnyddiol ar gael a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am ddysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr gydag amhariad ar y golwg, eu hanghenion, a'r ffyrdd gorau o'u cefnogi.

Bydd edrych ar wybodaeth ac adnoddau pellach yn helpu i sicrhau bod eich coleg mewn sefyllfa dda i allu darparu cymorth o ansawdd uchel ac sy'n briodol ar gyfer eich dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr ag amhariad ar y golwg, gan arwain at brofiadau dysgu gwerth chweil a chyfartal iddynt.

Mae rhestr o wefannau ac adnoddau y gellir clicio arnynt ar gael isod, gan gynnwys rhai sydd wedi'u llunio ar gyfer y dysgwyr eu hunain.

## Gwefannau ac adnoddau ar gyfer staff coleg

### Dysgwyr sy'n fyddar a dysgwyr gydag amhariad ar y golwg

- National Sensory Impairment Partnership (NatSIP): www.natsip.org.uk
- Just enough Support (NatSIP)
- Anghenion dysgu ychwanegol: canllawiau addysg ôl-16 | LLYW.CYMRU

### Dysgwyr sy'n fyddar

- National Deaf Children's Society (NDCS): www.ndcs.org.uk
- British Association of Teachers of Deaf Children and Young People (BAToD): www.batod.org.uk
- RNID: www.rnid.org.uk
- Hearing loss simulators (NDCS)
- Further education at 16+ (NDCS) yn cynnwys astudiaethau achos ar ffurf fideo gan ddysgwyr byddar mewn Addysg Bellach
- Deaf friendly teaching for further education staff (NDCS)
- Deaf works everywhere toolkits (NDCS): adnoddau ar gyfer cyngor gyrfaoedd.
- Supporting the achievement of deaf young people in further education (NDCS)
- Specialist Deaf Curriculum Framework (Sefydliad Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar Prydain)

### Dysgwyr gydag amhariad ar y golwg

- RNIB Cymru: www.rnib.org.uk/nations/walescymru/

- Best practice in supporting learners with vision impairment (Prifysgol Birmingham a VICTAR)
- Addasiadau Rhesymol mewn ysgolion yng Nghymru 2024 (RNIB a NatSIP) ar gael yn Gymraeg a Saesneg
- Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)
- Canllawiau pontio: Pontio'r bwlch (RNIB) adnoddau a chanllawiau fideo (i weithwyr proffesiynol)

## Gwefannau ac adnoddau ar gyfer dysgwyr

### Dysgwyr sy'n fyddar

- My deafness didn't stop me (NDCS) proffiliau modelau rôl
- Further education at 16+ (NDCS) gyda gwybodaeth a phroffiliau modelau rôl

### Dysgwyr gydag amhariad ar y golwg

- Addysg Oedolion (RNIB Cymru)
- Eich Dyfodol, Eich Dewis: Pontio'r Bwlch – Cymru (RNIB Cymru)
- Canllawiau pontio: Pontio'r Bwlch (RNIB) adnoddau a chanllawiau fideo (i ddysgwyr)

# Atodiad A

**Rhestr wirio i staff dysgu** (i'w defnyddio gyda dysgwyr sydd newydd gofrestru neu ddysgwyr sy'n dychwelyd sy'n fyddar neu ag amhariad ar y golwg)

| | ✓ |
|---|---|
| **Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion** | |
| Siaradwch gyda'r dysgwr i wybod ei ddewisiadau: sut mae'n diffinio ei amhariad ar y golwg/byddardod, pa dermau sydd orau ganddo ef/hi eu defnyddio? | |
| Ymgyfarwyddwch ag anghenion y dysgwr a'r gefnogaeth sydd arno ei angen yn y coleg (er enghraifft, edrychwch ar ei Gynllun Datblygu Unigol os oes un ar gael). | |
| Cynhaliwch drafodaethau gyda'r dysgwr (a'i rieni os yn briodol) a chydweithwyr yn y coleg ynglŷn â'r hyn y gallwch ei wneud i gynorthwyo'r dysgu. | |
| Ystyriwch sut y gallwch integreiddio anghenion y dysgwr yn eich dosbarthiadau. Mae pob unigolyn yn wahanol, ac mae anghenion cymorth yn amrywio. Gweithiwch gyda'ch dysgwr i nodi'r hyn sy'n gweddu orau iddo ef/hi ac adolygwch lle bo angen drwy gydol y flwyddyn academaidd. | |
| **Amgylcheddau dysgu cynhwysol** | |
| Gwiriwch pa mor hygyrch yw eich gofodau dysgu, a p'un a oes angen unrhyw addasiadau. | |
| Byddwch yn ofalus o'ch cyfathrebu eich hun:<br>• Ydych chi'n hawdd i'ch gweld yn y dosbarth?<br>• Ydych chi'n siarad yn glir ac yn osgoi jargon?<br>• A yw dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg yn integreiddio yn y dosbarth gyda'u cyfoedion? | |
| Gofynnwch i arbenigwyr yn y coleg neu o fewn rhwydweithiau a'r dysgwyr eu hunain am adborth ar y deunyddiau dysgu yr ydych yn eu defnyddio (sleidiau, taflenni ac ati) i wirio eu bod yn hygyrch ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. | |
| Gwiriwch fod eich adnoddau'n addas i bawb trwy gysylltu gydag arbenigwyr a dysgwyr:<br>• A oes gennych feddalwedd fformatio hygyrch ac yn gallu sicrhau hygyrchedd eich deunyddiau dysgu? | |

| | |
|---|---|
| • Ydych chi'n defnyddio fideos neu glipiau sain a allai fod angen eu hegluro neu eu haddasu ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg? | |
| **Dysgu proffesiynol** | |
| Mynediad i gyfleoedd dysgu proffesiynol lle bo'n bosibl i ymgyfarwyddo mwy gyda byddardod/amhariad ar y golwg. | |
| Gwirio a oes gan dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg unrhyw offer arbennig y mae angen i chi fod yn gyfarwydd ag ef i gynorthwyo gyda'r dysgu. Os oes angen, chwiliwch am hyfforddiant neu gymorth i'ch cynorthwyo i wneud hyn. | |
| **Rhwydweithiau ac adnoddau** | |
| Cysylltwch â rhwydweithiau (mewnol neu allanol) sy'n gallu eich cynghori ar y ffordd orau o gefnogi eich dysgwyr sy'n fyddar neu ag amhariad ar y golwg. | |
| Mynediad i adnoddau i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o anghenion dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg. | |

# Atodiad B

**Ystyriaethau cyffredinol ar gyfer colegau**

| | ✓ |
|---|---|
| **Terminoleg** | |
| Gwirio bod terminoleg yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws y coleg. | |
| Sicrhau bod dogfennaeth yn defnyddio'r derminoleg gywir. | |
| **Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | |
| Sicrhau bod sgyrsiau'n digwydd rhwng staff a dysgwyr sy'n fyddar neu gydag amhariad ar y golwg i ddeall eu hanghenion. | |
| **Rhwydweithiau ac adnoddau** | |
| Cynorthwyo staff i gael mynediad i rwydweithiau cymorth ac adnoddau. | |
| Ystyried a yw adnoddau cymorth ar gael yn rhwydd i staff. | |
| **Dyletswyddau (Deddf Cydraddoldeb, Deddf ALNET, Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru)** | |
| Sicrhau bod y coleg yn cydymffurfio gyda dyletswyddau gofynnol. | |
| Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r dyletswyddau. | |
| **Pontio** | |
| Datblygu/cynnal cydweithrediad gydag ysgolion uwchradd – a lle bo angen, unrhyw wasanaethau cymorth eraill a rhieni/gofalwyr – i gefnogi pontio llyfn. | |
| Gwirio bod gan y coleg yr offer cymorth cywir cyn pontio dysgwyr. | |
| Adolygu trefniadau hygyrchedd safle'r coleg. | |
| **Cefnogi dysgwyr** | |
| Ystyried sefydlu rhwydweithiau cefnogi cymheiriaid ar gyfer dysgwyr. | |
| Hwyluso'r cyfle i ddysgwyr ymuno â rhwydweithiau eraill (mewnol neu allanol i'r coleg) trwy godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo ac ati. | |
| **Dysgu proffesiynol** | |
| Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael ac yn cael eu hysbysebu i staff. | |
| Adolygu effaith dysgu proffesiynol ar staff a phrofiad dysgwyr. | |

ColegauCymru
CollegesWales

www.colegau.cymru
029 2052 2500
helo@colegaucymru.ac.uk
ColegauCymru